
# Stori'r Geni



Stori Mair

# Stori'r Geni

## Stori Mair



**Gwybodaeth Gefndirol**

- Roedd Mair yn ferch ifanc oedd yn byw yn Nasareth. Roedd wedi ei dyweddïo i Joseff.
- Mae'r Beibl yn dweud fod Duw wedi dangos ffafr at Mair.
- Siaradodd Duw gyda Mair drwy anfon angel gyda neges iddi, a dyma hi'n ufuddhau iddo.
- Roedd Mair yn ifanc a di-briod. Duw wnaeth iddi feichiogi mewn ffordd wyrthiol. Roedd hyn yn anodd ei ddeall ond dewisodd Mair drystio Duw.
- Lapiodd Mair Iesu mewn cadachau geni. Yng nghyfnod y Beibl roedd hi'n arferiad i olchi babi oedd newydd ei eni, ac yna ei rwbio gyda halen, cyn ei lapio mewn cadachau geni. Byddai'r cadachau yn cadw'r babi yn gynnes ac yn sicrhau fod ei freichiau a'i goesau yn tyfu'n syth.




**Yn y Beibl**

- Gelli ddarllen am yr angel yn ymweld â Mair yn y Beibl, llyfr Luc, pennod 1, adnod 26 i adnod 38.
- Gelli ddarllen am Iesu'n cael ei eni yn y Beibl, llyfr Luc, pennod 2, o adnod 1 i adnod 20. Hefyd yn llyfr Mathew, pennod 1, adnod 18 i bennod 2, adnod 12




**Teimladau ac Emosiynau**

- Byddai Mair wedi bod yn ofnus iawn pan ddaeth yr angel Gabriel i'w gweld.
- Byddai wedi synnu ei bod hi wedi'i dewis a chael ffafr gan Dduw.
- Byddai wedi bod yn ddryslyd ac yn teimlo embaras o sylweddoli ei bod yn disgwyl babi cyn priodi, ond ar yr un pryd, byddai wedi teimlo'n hapus a chynhyrfus o fod yn feichiog gyda mab Duw.
- Byddai teithio i Fethlehem tra'n feichiog wedi'i blino hi'n lân.
- Byddai Mair wedi bod wrth ei bodd pan anwyd Iesu.
- Byddai ymweliadau annisgwyl y bugeiliaid a'r gwŷr doeth wedi ei synnu.
- Byddai Mair wedi teimlo heddwch gan ei bod yn trystio Duw.



**Gweithgaredd gydag oedolyn**

- Rhowch bêl feddal i'r plant a'u cael i daflu'r bêl i'w gilydd. Wrth daflu'r bêl dylid eu cael i alw allan emosiwn y byddai Mair wedi'i deimlo (eisoes wedi'i drafod) Dylai'r plentyn sy'n dal y bêl esbonio'n fyr pam fyddai Mair wedi teimlo'r emosiwn hwnnw.



**Myfyrio**

- Roedd Mair yn trystio Duw, er nad oedd hi'n deall beth oedd ar fin digwydd yn ei bywyd. Weithiau mae'n rhaid i ni drystio pobl eraill ac ufuddhau iddyn nhw, hyd yn oed pan nad ydyn ni'n deall y cwbl.
- Pam wyt ti'n meddwl ei bod hi'n bwysig trystio pobl?
- Wyt ti'n gallu credu rhywbeth hyd yn oed pan nad wyt ti'n ei ddeall yn iawn?